

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mawrth*

*O fis Ebrill i fis Medi*

*Disgrifiad o'r modiwl*

TM111 yw'r cyntaf o ddau fodiwl gorfodol ar lefel mynediad ar gyfer cymwysterau Cyfrifiadura a chymwysterau TG. Mae'r modiwl yn cyflwyno cysyniadau allweddol Cyfrifiadura a Thechnolegau Gwybodaeth, megis technolegau digidol, rhaglennu a meddwl algorithmig, a rhwydweithio. Mae TM111 yn rhoi pecyn adnoddau cynhwysfawr i fyfyrwyr o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau perthnasol, ac yn eu helpu hefyd i ddatblygu eu sgiliau astudio a dod yn ddysgwyr annibynnol a myfyrgar. Caiff sgiliau Llythrennedd Gwybodaeth Digidol a Chyflogadwyedd eu cwmpasu hefyd. Bydd myfyrwyr yn astudio â llyfrau print ac yn cynnal gweithgareddau ar-lein yn ogystal â gwaith rhaglennu ar y sgrin. Bydd tiwtoriaid yn helpu myfyrwyr drwy gymysgedd o diwtorialau wyneb yn wyneb ac ar-lein.

*Manyleb y person*

Dylid darllen y fanyleb person ar gyfer y modiwl hwn ynghyd â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylai eich cais roi **tystiolaeth** eich bod yn bod yn bodloni pob un o'r gofynion a restrir isod.

Dylai'r canlynol fod yn wir amdanoch:

- yn ddefnyddiwr cyfrifiadur hyderus â chefnidir yn y defnydd ohonynt at ddibenion cymdeithasol, gwaith neu addysg
- yn wybodus am ddatblygiadau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chyfrifiadura a TG, ac yn meddu ar ddiddordeb gweithredol ynddynt
- yn hyfedr wrth addysgu dylunio a chreu rhaglenni ar lefel ragarweiniol
- yn gallu datblygu sgiliau datrys problemau eang myfyrwyr gan gynnwys meddwl algorithmig
- yn gallu addysgu cysyniadau ategol ac egwyddorion technegol seilweithiau rhwydweithio a chyfathrebu di-wifr a'u heffaith ar gymdeithas ar lefel 1
- yn gallu datblygu sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig, rhifedd, a llythrennedd digidol a gwybodaeth myfyrwyr
- yn frwdfrydig dros, ac yn gallu, addysgu mewn sefyllfaoedd ar-lein ac wyneb yn wyneb, h.y.
  - hwyluso gweithgareddau anghydamserol ar ffurf fforwm a chymedroli fforymau grŵp tiwtor ar-lein
  - cyflwyno tiwtorialau ar-lein, tiwtorialau wyneb yn wyneb ac ysgolion dydd
- yn barod i gymryd rhan weithredol mewn cymuned ar-lein o athrawon a dysgwyr
- yn barod i ddefnyddio a datblygu sgiliau fel athro, gan ddefnyddio'r technolegau newydd a thechnolegau sy'n esblygu er mwyn helpu myfyrwyr i ddysgu
- yn meddu ar ddiddordeb mewn defnyddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau i fynd i'r afael ag agenda cadw a datblygu'r gyfadrann.

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu Cyfrifiadura a TG ar lefel mynediad i oedolion
- profiad o iaith rhaglennu weledol megis Scratch
- cymhwyster neu achrediad addysgu priodol (e.e. TAR neu gymhwyster cyfatebol; cymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch neu gymhwyster cyfatebol;)
- profiad o weithio gyda chymheiriaid er mwyn darparu gwersi.

Bydd yn ofynnol i chi ddangos sut rydych yn bodloni rhai o'r gofynion hyn mewn cyfweiliad, os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer.

*Gwybodaeth ychwanegol*

- **Noder:** Mae'r modiwl yn dilyn patrwm cyflwyno 21 wythnos

*Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan*

|  |    |
|--|----|
| Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus: | 30 |
| Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:                                    | 3  |
| Dull cyflwyno aseiniadau:  | 1  |
| Lefel y gofynion TGCh:   | 2  |
| Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:                             | 20 |
| Band cyflog:   | 4  |
| Nifer o oriau yr wythnos addysgu sy'n debygol                                      | 6  |

*Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei gymeradwyo eto ac felly mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.*